

Datblygiad Ysgol a Chynnydd Disgyblion

**Cynorthwyo cynnydd disgyblion: dadansoddiad manwl o ddatblygiad cyfannol un plentyn
gan gyfiawnhau'r camau dysgu nesaf.**

Rhagarweiniad

Bydd yr aseiniad hwn yn canolbwyntio ar gasglu data canolbwyntiedig a manwl ar un plentyn o fy nosbarth yn ystod fy mhrofiad addysgu olaf. Ystyriwyd moeseg yn drylwyr cyn dechrau casglu data'r plentyn. Bydd enw'r plentyn, unrhyw blant arall ac enw'r ysgol yn cael eu cadw'n gyfrinachol ac yn ddiennw. Yn yr aseiniad hwn byddaf yn dadansoddi'r holl ddata a gasglwyd am y plentyn ac yn cynnig camau ymlaen ar ei gyfer fel modd o sicrhau cynnydd ar draws meysydd y cwricwlwm yn y dyfodol.

Lleolir yr ysgol dan sylw yn agos i dref Llanelli, Sir Gaerfyrddin. Mae'r ysgol wedi'i rhannu yn ddau gampws; yr ysgol babanod a'r ysgol iau. Mae 211 o ddisgyblion ar y gofrestr yn yr ysgol babanod, ac mae 238 o ddisgyblion yn yr ysgol iau. Mae 11.3% o'r disgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae 87.9% o ddisgyblion yn cyflawni'r deilliannau disgwyliedig ym meysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen ar ddiwedd y cyfnod. Mae'r ysgol wedi'i nodi fel ysgol categori gwyrdd (Llywodraeth Cymru, 2017).

Mae'r dysgwr dan sylw (Plentyn A) yn fachgen 4 oed, ar fin troi'n pump yng ngwyliau'r haf. Mae Plentyn A yn fachgen hoffus, hapus, siaradus a hynod o gyfeillgar. Mae gan Plentyn A brawd sy'n 7 oed ym mlwyddyn 2. Mae Plentyn A yn siarad am ei frawd yn aml, ac maent wastad yn chwarae gyda'i gilydd ar y buarth yn ystod amser egwyl. Mae plentyn A yn dod o gartref ddi-gymraeg, fodd bynnag mae ei fam wedi dechrau derbyn gwersi Cymraeg yn y nosweithiau.

Yn ôl sôn gan yr athrawes ddosbarth, mae ei ddatblygiad wedi bod yn aruthrol yn y misoedd diwethaf. Yn ystod yr amser byr o adnabod Plentyn A, mae ei bersonoliaeth wedi disgleirio ac mae ei Gymraeg llafar yn bendant wedi datblygu o fewn y cyfnod byr. Mae Plentyn A yn

disgrifio pethau'n fanylach ac yn defnyddio mwy o eirfa Gymraeg i gymharu ar ddechrau fy mhrofiad addysgu.

Casglu data

Casglwyd data ansoddol ar gyfer yr ymchwiliad hwn. Gall data ansoddol bod yn anodd cyffredinol oherwydd nid yw'r data yn ystadegol ond yn hytrach mae'n ddisgrifiadol (Strauss a Corbin, 1998). Yn ogystal mae'r data a gasglwyd yn yr aseiniad hwn yn ffocysu ar un plentyn yn unig, ac mae'n amhosibl dweud bod yr un data a dadansoddiadau yn wir neu'n addas ar gyfer pob plentyn arall o fewn y dosbarth (Cohen et al., 2007).

Defnyddiwyd y dull mosaig i ymgymryd yn yr ymchwiliad hwn. Mae'r dull mosaig yn cyfuno ystod eang o ddulliau gwahanol er mwyn casglu data (Clark a Moss, 2011). Datblygwyd y dull Mosaig yn ystod astudiaeth ymchwil er mwyn cynnwys 'llais y plentyn' (Clark a Moss, 2001). Mae'r dull Mosaig yn cyfuno methodoleg arsylwi draddodiadol megis cyfweiliadau gydag offer cyfranogol. Mae'r plant yn medru defnyddio camerâu i gofnodi 'beth sy'n bwysig yma'. Maent hefyd yn gallu mynd â'r ymchwilydd ar daith o amgylch yr ysgol neu ddosbarth ac maent yn gyfrifol am sut mae hyn yn cael ei gofnodi. Maent hefyd yn medru creu mapiau o'i hoff ardaloedd ac ati o fewn yr ysgol. Gall y data cyfranogol yma rhoi darlun cyflawn o'r plentyn i'r ymchwilydd (Clark a Moss, 2001).

Mae'r dull Mosaig wedi'i gynllunio ar gyfer gwrandao ar lais y plentyn. Mae'r dull hwn yn defnyddio gwahanol ffynonellau o gasglu data sy'n amrywio o ddelweddau, geiriau ac iaith corff y plentyn. Mae dau gam gwahanol yn y fframwaith Mosaig. Mae cam un yn ffocysu ar blant ac oedolion yn casglu deunydd. Mae cam dau yn ffocysu ar blant ac oedolion yn trafod safbwyntiau'r plant. Mae cam un yn cynnwys ceisio creu darlun o fywyd dydd i ddydd y plentyn o fewn y dosbarth.

Dechreuir hyn trwy arsylwi'r plentyn er mwyn deall teimladau'r plentyn a sut y mae'r plentyn yn defnyddio ardaloedd gwahanol o fewn y dosbarth. Gall cyfweiliadau anffurfiol hefyd bod yn ddull o gasglu data er mwyn deall canfyddiadau'r plentyn o fywyd o ddydd i ddydd. Dull arall o gasglu data yw cael y plentyn i greu map o'r ysgol neu ddosbarth. Dengys hyn yr ysgol a'r ystafell ddosbarth o safbwynt y plentyn. Yn olaf, gall cynnal teithiau gyda'r

plentyn o'r ysgol i ddeall beth sy'n bwysig i'r plentyn bod yn fuddiol dros ben (Clark, 2001). Felly mae'r cymysgedd o arsylwi, cynnal cyfweiliadau, creu mapiau a theithiau o'r ystafell ddosbarth/ ysgol yn cyfrannu at greu darlun cyflawn o'r plentyn.

Yn gam dau o'r fframwaith Mosaig, gall ymchwilydd casglu'r holl ddeunyddiau a ffeithiau a ddaw o'r gweithgareddau o gam un er mwyn deall blaenoriaethau a theimladau'r plentyn yn fwy. Ar ôl i holl ddarnau'r Mosaig cael eu cyfuno gall yr arweinydd drafod camau ymlaen ar gyfer y plentyn (Clark, 2001).

Un o brif elfennau'r dull Mosaig yw gwrando ar y plentyn. Mae'r dull hon yn caniatáu i'r plentyn bod yn gyfrifol am arwain yr ymchwiliad, ac o ganlyniad mae'n rhoi rhyddid i'r plentyn i gyfleu ei theimladau am agweddau o'r ysgol ac addysg (Clark, 2005).

Gall cyfweiliadau yn unig gyfyngu ymatebion y cyfranogwr. Gall disgyblion teimlo dan bwysau i ateb mewn ffordd benodol ac felly nid yw'r ymchwilydd yn cael darlun clir o'r plentyn (Coyne a Carter, 2018). Mae'r dull Mosaig yn effeithiol iawn gan ei fod yn cyfuno mwy nag un dull o gasglu data i roi gwir ddarlun o'r plentyn iddynt.

Bydd canllawiau moesegol yn cael ei ddilyn yn agos wrth gasglu'r data ar gyfer yr ymchwil. Dilynwyd canllawiau BERA (2011) i sicrhau bod yr ymchwilydd yn cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod y cyfranogwr yn deall y broses ymchwil. Bydd angen i'r plentyn rhoi caniatâd i gymryd rhan yn yr ymchwil trwy roi bodiau i fyny/i lawr ac i greu darlun o wyneb hapus/trist wrth ymyl ei enw. Yn ogystal â derbyn caniatâd gan y plentyn i gymryd rhan, bydd angen i'r athrawes ddosbarth llofnodi er mwyn rhoi caniatâd i gasglu data o'r plentyn. Sicrhau bod yr holl gyfranogwyr yn gwybod bod ganddynt hawl i dynnu yn ôl o'r ymchwil ar unrhyw adeg.

Dadansoddi'r dysgwr

Mae Plentyn A yn fachgen pedair blwydd oed ac yn nosbarth derbyn. Mae Plentyn A yn hoff iawn o gael sgysiau gyda phawb ac mae o hyd gyda gwen ar ei wyneb ac yn chwerthin. Mae Plentyn A yn y grŵp gallu canolog. Trwy arsylwi ar Blentyn A dros gyfnod o bedair wythnos, fe wnaeth y plentyn ymddangos yn frwdfrydig dros ben i gymryd rhan yn y gweithgareddau ymchwil. Fe wnaeth Plentyn A arwain mi ar daith o amgylch y dosbarth a'r ysgol, gan sôn am ei hoff ardaloedd ar hyd y ffordd. Roedd hi'n amlwg bod rhai ardaloedd yn bwysicach iddo

nag eraill. Ymddangosir taw ei hoff ardal o fewn yr ysgol oedd y buarth chwarae. Mae buarth yr ysgol babanod yn anghredadwy, does dim rhyfedd taw dyma'i hoff le yn yr ysgol. Ceir amrywiaeth o weithgareddau gwahanol ar y buarth megis yr ardal beicio, y trê enfawr, yr ardal natur a'r parc. Ar y buarth mae yna heol wedi'i phaentio. Gofynnwyd i Blentyn A os oedd o'n defnyddio'r heol. Yn syth dywedodd e nid oes hawl cerdded ar yr heol rhag ofn i rywun ar feic eich taro. Dywed Plentyn A, "Ma rhaid defnyddio'r 'zebra crossing'" meddai ef. Dengys hyn bod gan Blentyn A gwybodaeth a dealltwriaeth gref o sefyllfaoedd go iawn. Er bod yr heol yn un 'ffug', mae'n ymwybodol bod rhaid cadw at reolau'r ysgol sydd yn y pendraw yn ei helpu i gadw at reolau'r heol ym mywyd go iawn.

Gofynnwyd i'r plentyn beth oedd ei hoff beth am y buarth. Dywedodd yr unigolyn taw rhedeg o amgylch y buarth a chwarae gyda ffrindiau oedd ei hoff beth am y buarth. Roedd o'n hoff iawn bod ganddo ryddid i fod yn swnllyd a rhedeg, ond roedd o'n ymwybodol bod angen bod yn dawelach o fewn yr ystafell ddosbarth. Dywedodd ei bod yn hoff iawn o weithio tu allan yn yr ardal agored hefyd. Noda Cooper (2004) bod chwarae y tu allan yn cynnig mwy o fanteision na chwarae tu mewn. Ategir hyn gan Williams-Siegfriedsen (2017) sy'n esbonio bod plant yn gweld dysgu yn yr awyr agored yn fwy pleserus i gymharu â gweithio yn yr ystafell ddosbarth. Yn ogystal gall gweithio yn yr awyr agored gwella ymddygiad a sgiliau cymdeithasol y plant. Felly mae'n gwneud synnwyr bod Plentyn A yn mwynhau treulio amser yn yr awyr agored, gan ei bod yn cynnig amryw o fanteision cymdeithasol ac emosiynol.

O fewn yr ystafell ddosbarth roedd Plentyn A yn hoff iawn o'r gornel ddarllen. Pob bore cyn amser y gofrestr, arsylwyd Plentyn A yn rhuthro i'r cornel ac yn edrych am lyfr newydd. Weithiau, daw'r plentyn ataf er mwyn cael cymorth i ddarllen y llyfr. Roedd yn amlwg bod y plentyn eisiau dysgu a chafodd pleser mawr yn edrych ar y lluniau hyfryd o fewn y lluniau. Gofynnwyd iddo beth oedd e'n hoffi am lyfrau, dywedodd e 'y lluniau lliwgar'. Noda Machado (2015) bod llyfrau yn helpu datblygu dychymyg plant. Mae rhai llyfrau llun mor ddiddorol, gall pob pryder cael eu hanghofio, a gall y plentyn byw ym myd ffantasi'r stori yn ystod ei ddarllen.

Ar ôl mynd ar daith o amgylch yr ysgol, gofynnwyd i'r plentyn creu map neu lun o beth oedd

yn bwysig iddo o fewn yr ysgol. Fe wnaeth o greu llun o'r buarth, gan gynnwys y parc a'r sied beiciau. Yn ogystal fe wnaeth o greu llun o'r carped yn y dosbarth. Roedd hyn yn ddiddorol iawn ac felly gofynnwyd iddo pam bod yr ardal carped yn bwysig iddo. Fe wnaeth o esbonio bod y carped yn bwysig oherwydd dyna ble mae pawb yn dysgu. Roedd o hefyd yn hoff iawn o'r clustogau a'r bagiau ffa ar y carped.

Noda Cooper a Brna (2003) bod angen i blant ifanc deimlo'n ddiogel os ydynt am gymryd risgiau a bod yn greadigol o fewn yr ystafell ddosbarth. Ymddangoswyd bod y carped yn le diogel iddo ac mae'n bosibl bod y carped, y clustogau a'r bagiau ffa yn cyfrannu at y teimlad o ddiogelwch yma. Ategir hyn gan Hunter (2004) sy'n esbonio bod datblygiad emosiynol yn elfen hollbwysig o ddatblygiad plentyn.

Mae'n amlwg bod llais y plant yn cael eu trin yn ddifrifol iawn yn y dosbarth. Noda'r 'Children's Society' (2012) mai un o'r pethau mae plant yn pwysleisio dro ar ôl tro mewn ymchwil ansoddol yw pwysigrwydd gwneud dewisiadau a phenderfyniadau am eu bywydau eu hun. Mae plant yn hoffi'r teimlad o annibyniaeth. Yn yr ystafell ddosbarth mae pwyslais mawr ar lais y plentyn. Yn yr amser byr o arsylwi'r disgyblion, gofynnwyd i'r plant gwneud amryw o ddewisiadau trwy bleidleisio am beth hoffan nhw weld yn yr ardal chwarae rôl nesaf, a pha liw paent hoffan nhw weld yn yr ardal greadigol. Er bod y rhain yn benderfyniadau bach, mae'r disgyblion yn hoff iawn o wneud y penderfyniadau yma oherwydd mae'n gwneud iddyn nhw deimlo'n bwysig a bod oedolion yn ymddiried ynddynt.

Dadansoddi plentyn

Defnyddiwyd y fodel 'ASK' (Nottingham, 2013) er mwyn dadansoddi'r dysgwr. Mae'r model 'ASK' yn ffocysu ar dair agwedd wahanol sef, agweddau, sgiliau a gwybodaeth y dysgwr.

Agweddau

Dengys bod agwedd Plentyn A tuag at yr ysgol a dysgu yn gadarnhaol iawn. Mae'n fachgen sydd eisiau ac yn mwyhau dysgu. Mae'n hynod o chwilfrydig, ac ym mhob sesiwn mae'n cwestiynu ac yn fwy na parod i ateb cwestiynau.

Gweler Plentyn A mathemateg fel maes dysgu hwyliog. Astudiwyd 'faint o'r gloch yw hi?' ar ddechrau'r profiad addysgu hon. Fe wnaeth Plentyn A chaffael cysyniad y cloc ac amser yn

gyflym iawn. Ar fwy nag un achlysur, mae Plentyn A wedi pwyntio tuag at y cloc yn y dosbarth a dweud, “Mae hi’n ___ o’r gloch Miss”. Dengys hyn bod ei agwedd tuag at ddysgu yn gadarnhaol iawn. Mae hefyd yn dangos ei fod wedi deall y pwnc rydym wedi bod yn dysgu yn y dosbarth. Deellir bod gan gloc un bys hir ac un bys byr.

Gwybodaeth

Yn ogystal â ffynnu gyda gweithgareddau’r cloc, mae Plentyn A, hefyd wedi caffael y cysyniad o arian yn dda iawn. Mae arian yn bwnc newydd i bob disgybl yn y dosbarth, a gall fod yn gysyniad anodd iawn i rai disgyblion ifanc. Yn ystod y wers gyntaf yn cyflwyno arian, deellir Plentyn A bod angen 3 darn arian 1 ceiniog i wneud 3 ceiniog. Roedd yr athrawes ddosbarth wedi synnu ei fod wedi caffael a’r cysyniad yn mor gyflym. Er ei fod yng ngrŵp gallu canolig, dylid gwthio plentyn A ymhellach eto wrth gyflwyno gwaith y disgyblion mwy abl a thalentog iddo. Nid ydwyf wedi arsylwi ar wybodaeth a dealltwriaeth tynnu rhifau i ffwrdd, siâp neu safle Plentyn A oherwydd prinder amser yn arsylwi. Felly mae’r dystiolaeth yma ar goll, fodd bynnag wrth drafod a’r athrawes ac edrych trwy lyfr Plentyn A, cytunwyd ei fod yng nghanol deilliant 2 a 3 ar hyn o bryd.

Yr unig beth sydd angen ymarfer er mwyn cyrraedd deilliant 3 yn gadarn yw adrodd rhifau o 10 i 20 yn fwy hyderus mewn dilyniant. Yn bendant bydd modd iddo gyrraedd deilliant 3 cyn gwyliau’r haf os ydy o’n ymarfer adrodd y rhifau yn fwy cyson.

Mae gan Plentyn A thueddiad o drafod yn ‘Wenglish’, sydd yn ddealladwy gan ei bod yn dod o gartref di-gymraeg. Fodd bynnag mae ei fam newydd ddechrau gwersi Cymraeg, rhywbeth gallai fod yn fuddiol iawn tuag at ddatblygiad iaith Cymraeg Plentyn A. Mae ei geirfa yn datblygu’n gyflym, ond mae angen iddo geisio dechrau trafodaethau yn Gymraeg. Yn aml mae angen atgoffa Plentyn A i drafod yn Gymraeg. Ar hyn o bryd mae Plentyn A yn gorwedd rhwng deilliant 2 a 3 yn llafaredd.

Mae sgiliau darllen Plentyn A yn gryf iawn, a deellir bod rhaid darllen o’r chwith i’r dde. Yn ogystal mae plentyn A wedi dechrau adnabod a ffurfio priflythrennau yn dda iawn. Mae Plentyn A wedi cyrraedd deilliant 3 yn darllen.

Ar hyn o bryd, mae Plentyn A wedi cyrraedd deilliant 2 yn llefaredd. Er mwyn cyrraedd deilliant 3, bydd angen i Blentyn A siarad yn gliriach a datblygu eu gallu i ynganu'n gywir. Yn ogystal bydd angen i Blentyn A defnyddio mwy o eirfa Cymraeg er mwyn gallu dweud brawddegau llawn yn Gymraeg ac yn hyderus.

Wrth arsylwi Plentyn A yn ddyddiol, sylweddolwyd ei bod yn dod i'r ysgol yn hapus pob diwrnod. Er mwyn mesur 'Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol' y plentyn, arsylwyd ar ei hapusrwydd yn ddyddiol yn ystod y pedair wythnos diwethaf. Yn y dosbarth, defnyddiwyd 'y tedi hapus' a'r 'tedi trist' er mwyn mesur hapusrwydd y disgyblion. Mae angen iddynt symud eu henwau i'r 'tedi hapus' neu'r 'tedi trist' yn ôl sut maent yn teimlo. Yn ystod y pedair wythnos diwethaf o arsylwi lles y plentyn, dim ond unwaith fe wnaeth Plentyn A symud ei enw i'r 'tedi trist', ac roedd hwn o ganlyniad i gwmpo ar y ffordd i'r ysgol. Dengys hyn ei fod yn fachgen hapus dros ben ar y cyfan. Gall rhai disgyblion profi trawma yn y cartref sy'n golygu gallant deimlo'n anniogel yn y dosbarth, sy'n golygu gall emosiwn cael effaith enfawr ar les disgyblion. Mae'r ffaith bod y disgyblion yn medru dangos eu teimladau'n ddyddiol yn fuddiol dros ben i aelodau staff yr ysgol ac i ddisgyblion gan ei bod yn dysgu nhw eu bod hi'n beth da i drafod am eu teimladau.

Yn ogystal â mesur hapusrwydd Plentyn A, gofynnwyd iddo beth oedd hawl y mis y mis hwn. Atebodd yn syth 'ein hawl i ofal a pharch'. Mae hawliau'r UNCRC (1989) yn hollbwysig yn yr ysgol, ac maent yn ffocysu ar un hawl pob mis. Er mai pedair oed yw Plentyn A, mae'n wych ei fod yn gwybod bod ganddo hawliau a dylai pawb sy'n gofalu amdano ei drin a pharch a'i gofalu. Ymddangoswyd Plentyn A i fod yn sensitif i deimladau eraill hefyd. Ar fwy nag un achlysur mae o wedi cynnig rhannu gwrthrychau neu helpu disgyblion eraill sydd yn cael trafferth gyda rhywbeth. Mae Plentyn A yn bendant wedi cyrraedd deilliant 3 ym maes dysgu 'Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol'.

Yn yr amser byr o arsylwi Plentyn A, mae ei gwybodaeth a dealltwriaeth wedi datblygu'n sylweddol. O fewn y maes dysgu 'gwybodaeth a dealltwriaeth', mae o wedi dysgu cylch bywyd pili-pala heb unrhyw rwystrau. Gall o adrodd y camau o fewn y cylch bywyd yn y drefn gywir heb unrhyw cymorth. Mae ei sgiliau darllen hefyd wedi datblygu'n gyflym dros yr wythnosau diwethaf ac mae o'n gallu darllen geiriau syml heb gymorth. Wrth drafod gyda'r athrawes ddosbarth, mae'n bosibl bydd angen symud Plentyn A i fyny i'r grŵp gallu

uwch ar ôl gwyliau'r hanner tymor.

Mae Plentyn A yn hoff iawn o wersi datblygiad corfforol, fel gweddill y disgyblion yn y dosbarth. Ceir cyffro mawr ganddo pan mae'n amser newid i wisg ymarfer corff. Medrai Plentyn A dadwisgo a gwisgo yn ddiffwdan heb unrhyw gymorth. Yn ystod y pedair wythnos diwethaf, mae'r gwersi datblygiad corfforol wedi ffocysu ar fownsio a dal pêl. Cafodd anhawster yn ystod y gwersi cyntaf i fedru bownsio ac yna dal y bêl, ond wrth i'r wythnosau fynd heibio mae'n medru gwneud hwn yn dda iawn. Gellir bownsio a dal pêl gyda phartner yn wych erbyn hyn, ac nid oedd o'n swil i ddangos i weddill y dosbarth sut i wneud hyn gyda phartner yn ystod y wers datblygiad corfforol diwethaf.

Camau nesaf

Ar ôl cael darlun cyflawn o Blentyn A, teimlaf fod digon o ddata wedi'u casglu a'u dadansoddi er mwyn cynnig camau nesaf i gynorthwyo cynnydd o ran dysgu'r plentyn. Wrth drafod gyda'r plentyn, roedd hi'n amlwg ei fod o'n mwynhau treulio llawer o amser yn gwneud gweithgareddau awyr agored. Fel y sonnir gan Williams-Siegfredsen (2017), mae plant yn gweld dysgu yn yr awyr agored yn fwy pleserus i gymharu â gweithio yn yr ystafell ddosbarth. Felly I gynorthwyo cynnydd Plentyn A, awgrymir cynllunio mwy o wersi yn yr awyr agored. Mae hwn yn golygu ein bod yn gwrando ar lais y plentyn. Gall y gwersi yma fod yn fuddiol iawn i'r plentyn, ond mae'n hollbwysig bod cydbwysedd rhwng y gwersi dan do ac yn yr awyr agored. Er mwyn sicrhau bod y plentyn yn treulio mwy o amser yn dysgu yn yr awyr agored, gall mwy o ardaloedd cyfoethogi cael eu creu yn yr awyr agored. Bydd modd cynllunio mwy o weithgareddau yn yr awyr agored gan fod y tywydd yn addas yn ystod yr haf.

Er mwyn taro deilliant 3 yn natblygiad iaith, llythrennedd a chyfathrebu, dylid parhau a sesiynau tric a chlic a sesiynau darllen yn rheolaidd. Bydd hi'n syniad i gynllunio mwy o weithgareddau iaith yn yr awyr agored, gan fod Plentyn A wedi nodi taw dyma yw ei hoff le i chwarae a dysgu.

Efallai bydd cyflwyno gair ac idiom yr wythnos yn helpu datblygu ei eirfa yn y Gymraeg, yn ogystal â geirfa weddill y dosbarth. Bydd cyflwyno caneuon a rhigymau Cymraeg hefyd yn datblygu geirfa Cymraeg Plentyn A. Yn ôl Beauchet et al., (2012) os yw plentyn yn gwybod wyth hwiangerdd yn dda erbyn eu bod yn bedair oed, fel arfer maent ymhlith y darllenwyr

gorau yn eu dosbarth erbyn eu bod ym mlwyddyn 3. Mae hwiangerddi yn ffordd wych o ddysgu sgiliau ffoneg gynnar. Yn ogystal â dysgu ffoneg i blant, mae hwiangerddi yn galluogi plant i ymarfer rhythm yr iaith ac i ddeall bod dilyniant clir o ddigwyddiadau mewn straeon, gan fod dechrau, canol a diwedd i'r stori.

Bydd ymgysylltiad â dilyniant o ddigwyddiadau yn sgil sydd angen ar blant wrth ddarllen. Gall hwiangerddi datblygu dychymyg plentyn trwy fynd a phlant i fyd ffantasi. Un fantais o ddefnyddio hwiangerddi yw bod nhw'n hawdd ailadrodd, sy'n golygu bod y plentyn yn dod yn gyfarwydd gydag adrodd brawddegau syml. Bydd hwiangerddi yn bendant yn helpu cynyddu geirfa Plentyn A hefyd, elfen a fydd yn caniatáu iddo gyrraedd deilliant 3. Er bod prinder amser yn y diwrnod ysgol, mae un can ond yn cymryd tua 3 munud i'w ganu, felly bydd y strategaeth hon yn hawdd i'w integreiddio.

Yn ogystal â chynllunio mwy o weithgareddau awyr agored a defnyddio mwy o hwiangerddi yn ystod y dydd, credwyd bydd gweithgareddau allgyrsiol yn fuddiol i blentyn A. Ar hyn o bryd, nid oes clwb Cymraeg yn yr ysgol. Gall yr ysgol gyfan manteisio ar glwb Cymraeg oherwydd prin iawn yw'r disgyblion sy'n dod o gartrefi Cymraeg. Bydd clwb Cymraeg hwyliog yn sicrhau bod y plant yn ymgymryd mewn gweithgareddau buddiol trwy'r iaith Gymraeg. Bydd modd i ddisgyblion o'r meithrin i flwyddyn 2 mynychu'r clwb. Bydd gan y disgyblion hyn mwy o eirfa Cymraeg hefyd, felly gall hwn ddatblygu sgiliau Cymraeg Plentyn A ymhellach. Fodd bynnag, gall creu clwb Cymraeg bod yn anodd oherwydd bydd angen caniatâd gan y pennaeth, yn ogystal bydd angen i rywun gymryd dros y clwb Cymraeg ar ôl i mi adael yr ysgol.

Er mwyn datblygu geirfa Cymraeg y disgyblion, byddaf yn sicrhau fy mod yn modelu'r iaith yn gywir ac yn cywiro eu hiaith pan yn briodol. Mae'n bwysig bod y plant yn cael arweiniant cywir wrth wrando arna i'n siarad Cymraeg, oherwydd yn y pendraw bydd y disgyblion yn defnyddio'r un eirfa a phatrymau brawddeg a mi.

Casgliadau

Ar gyfer yr ymchwiliad hwn, roedd angen defnyddio amryw o strategaethau asesu ar gyfer dysgu gwahanol. Defnyddiwyd y model Beirniadu Wedi Adfyfrio (BWA) yn ddyddiol er mwyn gwerthuso'r gwersi a gynlluniwyd. Yn ogystal, defnyddiwyd y tabl tracio er mwyn

tracio gwybodaeth a dealltwriaeth pob disgybl. Roedd y dulliau strategaethau ar gyfer dysgu yma'n iawn ar y cyfan ond nid oedd llais y plentyn yn cael eu clywed felly crëwyd nifer o bropiau gwahanol ar gyfer pob gwers er mwyn asesu eu gwybodaeth a dealltwriaeth.

Yn Ysgol A, mae'r disgyblion yn marcio gwaith eu hun, er eu bod yn bedair a pump oed maent yn dda iawn am wneud hyn. Ar ôl cwblhau tasg ffocws, mae'r disgyblion yn marcio eu gwaith gan ddefnyddio'r meini prawf llwyddiant. Maent yn cael cymorth i wneud hyn, ond nhw sydd yn dweud os ydynt yn haeddu rhoi tic wrth ymyl y meini prawf llwyddiant. Maent yn dda iawn am wella gwaith eu hun, ac maent yn gwybod bod rhaid iddynt gywiro eu gwaith gan ddefnyddio beiro gwyrdd ar gyfer 'gwyrdd gwella'.

Yn ystod gwersi yn ymwneud ag arian, defnyddiwyd ffyn loli gyda llun 1 geiniog a 2 geiniog arni. Yn ogystal crëwyd ffyn loli gyda llun 1 numicon a 2 numicon. Cafodd pob plentyn 1 ffyn loli gwahanol pob dydd. Roedd angen i'r disgyblion dilyn y cyfarwyddiadau e.e 'dangoswch eich ffyn loli os oes gennych ddarn arian un geiniog'. Roedd hyn yn ddull gwych o asesu ar gyfer dysgu ac roedd y disgyblion yn bendant yn mwynhau'r dasg gan ei fod yn rhyngweithiol.

Mae angen datblygu strategaethau asesu ar gyfer dysgu sy'n gyffrous ac yn hwyliog i'r disgyblion. Roedd rhaid bod yn greadigol wrth feddwl am wahanol ffyrdd o asesu ar gyfer dysgu. Felly yn ystod y profiad addysgu olaf, defnyddiwyd strategaethau cyffrous i weld os oedd y disgyblion yn deall y dasg neu'r pwnc.

Er bod creu adnoddau strategaeth asesu ar gyfer dysgu yn cymryd llawer o amser, mae'n fuddiol yn y pendraw oherwydd mae'n bosibl gweld yn syth pwy sy'n gweld y dasg yn rhy hawdd a phwy sy'n cael anawsterau. Fel athrawes, mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu effeithiol yn gwneud y dasg o dracio dealltwriaeth y plant yn haws ac yn gyflymach. Mae hefyd yn werthfawr gweld bod y disgyblion wedi deall (neu ddim). Credaf yn gryf dylai'r plant bod yn rhan o'r strategaethau asesu ar gyfer dysgu. Yn y dyfodol byddaf yn bendant yn ceisio bod yn greadigol pob tro trwy feddwl am strategaethau asesu ar gyfer dysgu sy'n addas ac yn hwyliog ar gyfer y plant.

Yn amlwg, nid oes modd gwneud ymchwil dwys ar bob plentyn o fewn y dosbarth, ond mae'r ymchwiliad hon wedi caniatáu i mi ddeall bod modd asesu disgyblion gan ddefnyddio

amryw o ffynonellau gwahanol, ac nid canlyniadau gwaith a phrofion yn unig.

Atodiad 1 – llythyr caniatâd

Gofynnir i'r Aseiniad Myfyrwyr TAR Cynradd: caniatâd a chadarnhad bod gwaith wedi cael ei wneud yn yr ysgol ar gyfer yr aseiniad 'Datblygiad Ysgol a Chynnydd Disgyblion', Haf 2018.

Annwyl fentor dosbarth / uwch fentor,

Ar gyfer y modwl prifysgol a enwir uchod, gofynnir i hyfforddeion i nodi un dysgwr sydd yn y dosbarth lle maent wedi cael eu lleoli a, dros y cyfnod Profiad Addysgu Proffesiynol, ymchwilio i'w ddysgu yn fanwl. Gallai'r dystiolaeth sydd angen ei chasglu arnynt gynnwys:

- arsylwi;
- gofyn i'r dysgwr nodi mannau/ pethau sy'n ei helpu ef / hi i ddysgu;
- trafod gyda'r disgybl a/ neu'r athro'r hyn sy'n helpu'r disgybl i ddysgu a sut maent yn teimlo am ddysgu;
- casglu samplau o waith a allai ddangos rhywbeth am gynnydd a datblygiad y dysgwr.

Gofynnir iddynt ganolbwyntio ar wybodaeth, agwedd a sgiliau mewn iaith, mathemateg, lles, yn ogystal ag o leiaf dau faes arall o'r cwricwlwm er mwyn cael darlun cyfannol o'r plentyn. Yna, gwnânt awgrymu'r camau nesaf ar gyfer y disgybl a dangos sut caiff y rhain eu cyflawni. Disgwylir i hyfforddeion fod yn annibynnol, pa bryd bynnag mae'n bosibl, wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, ac maent wedi cael canllawiau moesegol i'w dilyn (er ein bod ni'n rhagweld caiff y gwaith uchod ei wneud yn unol ag arfer arferol yr ystafell ddosbarth). Gofynnwyd i'r hyfforddeion i beidio â datgelu enwau'r dysgwr na'r ysgol yn eu haseiniadau. Gofynnir i'r myfyrwyr i:

1. Ofyn am ganiatâd ar gyfer gwneud y gwaith hwn (drwy ymgynghori â'r athro dosbarth a'r dysgwr).
2. Ddarparu cadarnhad bod y gwaith archwilio wedi digwydd.

Felly, byddem yn ddiolchgar pe baech yn gallu cadarnhau drwy lofnodi isod bod y myfyriwr wedi gofyn am ganiatâd a bod y tasgau wedi cael eu cynnal.

OS GWELWCH YN DDA):

ENWR YSGOL (PRINTIWC OS GWELWCH YN DDA)

ENWR UWCH FENTOR / MENTOR DOSBARTH (PRINTIWC OS GWELWCH YN DDA):

RACHEL MORRIS *R.Morris*

Llyfryddiaeth

Beauchat, K., Blamey, K., a Philippakos, Z. (2012) *Effective Read-Alouds for Early Literacy: A Teacher's Guide for PreK-1*. New York, USA: The Guilford Press

British Educational Research Association (BERA). (2011) *Ethical guidelines for educational research*. Ar gael o: <https://www.bera.ac.uk/researchers-resources/publications/ethical-guidelines-for-educational-research-2011>

[Cyrchwyd: 24.5.18]

Children's Society. (2012) *How happy are our children: measuring children's well-being and exploring economic factors*. Ar gael o:

https://www.childrenssociety.org.uk/sites/default/files/tcs/research_docs/12pp%20Well-being%20Report.pdf

[Cyrchwyd: 26.5.18]

Clark, A. (2001) *Say Your Piece*. Ar gael o:

<https://www.nurseryworld.co.uk/nursery-world/news/1087815/piece>

Cyrchwyd: [25.05.18]

Clark, A., a Moss, P. (2001) *Listening to Young Children: The Mosaic Approach*. London, UK: National Children's Bureau for the Joseph Rowntree Foundation.

Clark, A. (2005) 'Ways of seeing: using the Mosaic approach to listen to young children's perspective', yn Clark, A., Kjørholt, A., a Moss, P. (gol.), *Beyond listening: Children's Perspectives on Early Childhood Services*. Bristol: Policy Press, tud. 29–49.

Clark, A., a Moss, P. (2011) *Listening to Young Children: The Mosaic Approach*. 2nd ed. London, UK: National Children's Bureau for the Joseph Rowntree Foundation.

Cohen, L., Manion, L., a Morrisso, K. (2007) *Research Methods in Education*, London, UK: Routledge

Cooper, B., a Brna, P. (2002) 'Supporting High Quality Interaction and Motivation in the Classroom Using ICT: the social and emotional learning and engagement in the NIMIS project', *Education, Communication and Information*, Cyfrol 2, Rhif 2-3. tud. 113-138

Cooper, E. (2004) *When Children Love to Learn: A Practical Application of Charlotte Mason's Philosophy of Today*. Illinois, USA: Crossway Books

Coyne, I., a Carter, B. (2018) *Being Participatory: Researching with Children and Young People: Co-constructing Knowledge Using Creative Techniques*. New York, USA: Springer

Hunter, C. (2015) *Understanding and Managing Children's Behaviour through Group Work Ages 5–7: A child-centred programme*. Oxon, UK: Routledge

Llywodraeth Cymru. (2017) *My Local School*. Ar gael o:
<http://mylocalschool.wales.gov.uk/School/6692129?lang=en>
[Cyrchwyd: 24.5.18]

Machado, J. (2015) *Early Childhood Experiences in Language Arts: Early Literacy*. Cengage Learning

Nottingham, J. (dim dyddiad) ASK Model. Ar gael o:
<https://www.slideshare.net/jabulani4/develop-ask>
[Cyrchwyd: 27.5.18]

Strauss, A., a Corbin, J. (1998) *Basics of Qualitative Research*, California: SAGE Publications

Williams-Siegfriedsen, J. (2017) *Understanding the Danish Forest School Approach: Early Years Education in Practice*. 2nd ed. Oxon, UK: Routledge